

MARWNAD

AR

Farwolaeth deg o Ddynion,

A

GOLLODD EU BYWYDAU YN AFON ABERTAWE,

Wrth ddyfod o Odfa o Lansamlet,

PRYDNAWN DYDD SUL, Gorphenhaf 13, 1323.

Gan IOAN DAFYDD,

Landilo-tal-y Bont.

Y Deg uchod a ddarfu golli eu Bywydau, trwy fyned i Gwch i groesi yr Afon, ynghyd ag amrwy eraill, y rhai a achybwyd, trwy ymdrech mawr y rhai a fedrent nosio, o herwydd bod mwy o nifer yn y cwch na ddylasai fod: ac o herwydd iddynt bwysu mwy un ochr na'r llall, efe a ymhoelodd, yr hyn barodd marwolaeth y nifer uchod, er galar mawr trwy'r dre a'r wlad.

“Ymogelwch, gwiliwch, a gweddiwch; canys ni wyddoch pa bryd bydd yr amser.” *Marc 13, 22.*

William Williams, Argraffydd, Aberhonddu.

.....
1823.

X205256448

MARWNAD.



Newydd trwm a ddaeth i'm clust, mae rhai yn drust o'i blegid,
Am ddeg o ddynion glywais i a ddarfu golli eu bywyd.
Wrth ddo'd o'r odfa, ar eu taith daionus waith oedd hynny,
Gobeithio yr wyf trwy fas eu bod yn canu clod yr Iesu.

2

Mae olwyn fawr rhaglyniaeth Duw yn dirwyn rhwy ddirgelion,
A drefnwyd yn yr arfaeth ddoeth uchlaw gwybodaeth dynion,
Mae amser clwyfo a iachau, ac amser hau a medi,
Amser dwyn i lwch y bedd, yr un wedd ac amser geni.

3

Ienctyd hawddgar dyma uod i wilio a bod yn barod,
Does neb a wyr na'r dydd na'r awr rhaid myn'd i lawr y beddrod,
Pan ddol amser Duw i ben, o'r neu fe rydd orchymyn,
Mewn munud awr wrth erch y Gwr, bydd tan a dw'r yn elyn.

4

Golwg drust oedd gweled deg o ddynion teg eu gruddiau,
Wedi eu galw gyd i'r farn yn gadarn gan yr angau;
Tadau, plant a ienctyd glan yn myn'd n flaeu y frawdle,
Gobeithio eu bod hwy yn drachdio hedd y'ngwedd y Gwr fu'n
dyodde'.

5

Os af i chwilio o le i le o gylch i dre Abertawe,
Frist yw'r galar, mawr yw'r swm, a glywn yn ei chonglau,
Rhieni plant a chalon brudd o ddyd i ddydd yn wyllo,
Brodyr a chwirydd rhai ynghyd a'n cariadau'n cwyno.

3

6

Rhybudd yw i fawr a man sy'd myn'd ymlaeu mewn gwagedd,
 I ddwys ystyried nos a dydd ie beunydd am eu diwedd,
 Ceisio lamp ag olew gras cyn treulio maes eu dyddiau,
 Trwm heptan fel morwynion ffol a bod yn ol yn angau.

7

Ynledu mae y newydd hyn trwy bro a bryn u blaene,
 A llawer iawn yn syn wrth son am afon Abertawe
 Wedi gwneud fath orchwyl mawr mewn munud awr o amser,
 Sef myn'd a bywyd cynifer un er dychryn yn ei dyfnder.

8

Pe b'awn i'n myned ar rhiwy dro trwy'r gweithiau glo a'r cop'rau,
 Cawn weled yno lawer rhai a'r dagrau ar eu gruddiau,
 Ac yn y dre mae ol y brath roedd blaen y saeth mor llymed,
 Hi glwyfodd lawer calon do oddi yno i' Llanfawr.

9

Bydd cofio dro am waith yr rhain mor blain ar eu tafodau.
 Ar godd y cwrdd ger bron gwas Duw yn adrodd rhyw benodau,
 Ac yn canu mawl i'r oen i gyd ar don nefolaidd,
 Gobeithio eu bod hwy'n mol'i'r lor y'mlith y gor angylaidd.

10

Wrth fyn'd o'r odfa cyn pen awr, cael myn'd i lawr i'r dyfnder,
 A'u cyrph yn feirw yn d'od i'r lau, och! druen mawn bur amser,
 Ac ni ddaeth un i'r lan yn fyw ond a oedd Duw'n wyllysu,
 I'w cadw yn y byd yn hwy er dangos mwy o'i allu.

4

11

William Beddoe oedd barod nod i angau mewn oed cyfan,
Heb ddim yn fwy na ddim yn llai yn ddiâu chwe' a dengain,
Ac un ar bumtheg George ei nai, pan rhow'd mewn clai i huno,
Nes delo bloedd yr ydgorff mawr o lwch y llawr i'w ddefro.

12

Richard George yn bumtheg llawn, fel yma cawn mewn 'scrifen,
A Ioan Rogers druani gwr yn siwr oedd bump ar hugain;
Margaret David gyda hwy ga'dd ffarwel glwy mor syden,
Yn more'n hie'ngtyd cyn prydawn, yn gyflawn saith ar hugain.

13

Margret Williams aeth i'r bedd cyn cyraedd un ar hagain;
Elizabeth Mathew, gerllaw'r Cwm, er galar trwm drachefu,
Hon ar ben ei phumtheg oed, ni chlywd erioed fwy galar,
Wrth guddio tair mor lan o bryd run funud yn y ddaear.

14

Elizabeth John, gerllaw'r Cnapllwyd, a gafwyd yno'n farw,
Yn bedair mlwydd ar hugain oed, fu erioed un tro fwy chwerw,
Bety Jones, mewn amser byr, yn bedair blwydd ar hugain:
Llewelyn Thomas o'r un oed, ble clywd erioed fath ddamwain.

15

Ffarwel mwy rhaid tewi son er maent yw'r poen a'r galar,
Ar ol claddu ienctyd llon sef deg yn eigion daear;
Ar mab o'r Dolphin prudd eu fron, sy a'i galon bron a thori,
Waith colli ei gariad gore erioed bedd barod i briodi.

DIWEDD.